OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1851 (Cy.194)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Cafa-cafa mewn Bwyd (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud	- -	*11 Gorffennaf 2006*
Yn dod i rym	- -	*14 Gorffennaf 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(a), (e) ac (f), 18(1)(c), 26(1) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) ac a freinir ynddo bellach(**2**), ac ar ôl rhoi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ac ar ôl ymgynghori fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**3**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. O ran y Rheoliadau hyn—

(a) eu henw yw Rheoliadau Cafa-cafa mewn Bwyd (Cymru) 2006;

(b) deuant i rym ar 14 Gorffennaf 2006;

(c) byddant yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "awdurdod bwyd" yr un ystyr a roddir i ("*food authority*") yn adran 5(1A) a 3(a) a (b) o'r Ddeddf;

ystyr "awdurdod iechyd porthladd" ("*port health authority*") yw o ran unrhyw ardal iechyd porthladd a gyfansoddwyd drwy orchymyn o dan adran 2(3) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Afiechydon) 1984(**4**), awdurdod iechyd porthladd ar gyfer yr ardal honno a gyfansoddwyd drwy orchymyn o dan adran 2(4) o'r Ddeddf honno;

(**1**) 1990 p.16. Diwygiodd O.S. 2004/2990 y diffiniad o "food" yn adran 1 o'r Ddeddf ac fe ddiwygiodd y gofynion ymgynghori yn adran 48 o'r Ddeddf er mwyn bodloni gofynion Rheoliad (EC) Rhif 178/2002.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), fel y caiff ei ddarllen gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999.

(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1; sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith fwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau mewn materion sy'n ymwneud â diogelwch bwyd.

(**4**) 1984 p.22

ystyr "Cafa-cafa" ("*Kava-kava*") yw planhigyn, neu unrhyw ran o blanhigyn neu ddarn o blanhigyn, sy'n perthyn i'r rhywogaeth Piper methysticum;

mae i "cylchrediad rhydd mewn Aelod-wladwriaethau" yr un ystyr â ("*free circulation in member States*") yn Erthygl 23.2, fel y'i darllenir ynghyd ag Erthygl 24, o'r Cytuniad a sefydlodd y Gymuned Ewropeaidd;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990;

ystyr "Gwladwriaeth AEE" ("*AEE State*") yw Aelod-wladwriaeth, Norwy, Gwlad yr Iâ neu Liechtenstein;

Gwaharddiad ar werthu etc. bwyd sydd wedi'i wneud o Gafa-cafa neu sy'n ei gynnwys

3.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), ni chaiff unrhyw berson—

(a) gwerthu, neu

(b) meddu ar gyfer gwerthu, neu gynnig, arddangos neu hysbysebu ar gyfer gwerthu, neu

(c) mewnforio i Gymru o wlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig neu gludo i Gymru o unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig unrhyw fwyd sydd wedi'i wneud o Gafa-cafa neu sy'n ei gynnwys.

(2) Ni fydd y gwaharddiad a osodir gan baragraff (1) yn gymwys os yw'r bwyd sydd wedi'i wneud o Gafa-cafa neu sy'n ei gynnwys yn cael ei fewnforio o Wladwriaeth AEE, os yw'r bwyd—

(a) yn tarddu o Wladwriaeth AEE, neu

(b) yn tarddu y tu allan i Ardal Ewropeaidd Economaidd ond y mae mewn cylchrediad rhydd mewn Aelod-wladwriaethau,

ac allforir ef, neu mae i'w allforio i Wladwriaeth AEE heblaw'r Deyrnas Unedig.

Cosb a Gorfodi

4.—(1) Bydd unrhyw berson sy'n tramgwyddo neu sy'n methu â chydymffurfio â rheoliad 3 yn euog o dramgwydd a bydd yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i bob awdurdod bwyd orfodi darpariaethau'r Rheoliadau hyn o fewn ei ardal.

(3) Rhaid i bob awdurdod iechyd porthladd orfodi darpariaethau'r Rheoliadau hyn o fewn ei ardal.

Cymhwyso darpariaethau amrywiol Deddf Diogelwch Bwyd 1990

5.—(1) Bydd darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiad bod unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf neu Ran ohoni yn cael eu dehongli at ddibenion y Rheoliadau hyn fel cyfeiriad at y Rheoliadau hyn—

(a) adran 2 (ystyr estynedig "sale" etc);

(b) adran 3 (rhagdybiaeth y bwriedir bwyd i'w fwyta gan bobl);

(c) adran 20 (tramgwyddau o ganlyniad i fai person arall);

(ch) adran 21 (amddiffyniad o ddiwydrwydd dyladwy) fel y mae'n gymwys at ddibenion adrannau 14 neu 15 o'r Ddeddf;

(d) adran 22 (amddiffyniad o gyhoeddi yng nghwrs busnes);

(dd) adran 30(8) (sy'n ymwneud â thystiolaeth ddogfennol);

(e) adran 33(1) (rhwystro etc swyddogion);